



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Mwy Nag Ailgylchu

---

Asesiad o'r effaith ar  
Hawliau Plant

## A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

### 1. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc.

Bydd datblygu a chyflawni Mwy nag Ailgylchu – Strategaeth Economi Gylchol i Gymru - yn creu amgylchedd glanach, cymunedau mwy cynaliadwy ac economi ffyniannus lle mae plant Cymru yn byw drwy leihau gwastraff a pharhau i ddefnyddio adnoddau cyhyd ag y bo'n bosibl.

Bydd canlyniadau'r polisiâu hyn yn arwain at fanteision i ddinasyddion o bob oed, drwy annog y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ystyried effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol penderfyniadau ar genedlaethau'r presennol a'r dyfodol, gan gynnwys pobl ifanc. Gall y broses o wneud penderfyniadau gwell, ochr yn ochr â rheoli ein hadnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy, gael effaith gadarnhaol ar grwpiau sydd fwyaf agored i niwed, gan gynnwys plant. Yn benodol, bydd y strategaeth yn cefnogi eco-ysgolion i ddarparu mwy o addysg sy'n gysylltiedig ag ailgylchu ac economi gylchol, yn ogystal â datblygu cyfleoedd addysg bellach a sgiliau ynghyd â chyfleoedd gwaith yn y dyfodol.

Ymgysylltwyd yn helaeth â phobl ifanc fel rhan o'r ymgynghoriad ar gyfer Mwy nag Ailgylchu. Cynhaliwyd digwyddiadau gwahoddiad agored a nifer o ddigwyddiadau penodol ar gyfer grwpiau wedi'u targedu. Ymgysylltwyd â phlant a phobl ifanc yn ystod y broses ymgynghori drwy ddwy gynhadledd Lleisiau Bach-Little Voices; un ym Mangor ym mis Chwefror ac un arall yn Abertawe ym mis Mawrth. Roedd prosiect Lleisiau Bach yn cefnogi plant (o dan 11 oed) fel ymchwilwyr ac eiriolwyr i sicrhau newid a chyfrannu at bolisi a gwneud penderfyniadau ar faterion sy'n bwysig iddynt. Cynhaliwyd digwyddiadau er mwyn trafod yr ymgynghoriad hefyd mewn colegau a phrifysgolion i ymgysylltu â phobl ifanc a oedd yn hŷn i'w helpu i ddeall y materion a chyfeiriad llunio polisiâu ac i'n helpu i ddeall y rhwystrau rhag gweithredu yr oedd rhai pobl ifanc yn eu hwynebu. Roedd y rhain yn cynnwys swyddogion yn ymweld â Choleg Addysg Bellach a sefydliad Addysg Uwch i gynnal trafodaethau gyda myfyrwyr. Gwnaethom hefyd gynhyrchu fersiwn Hawdd ei Darllen o'r ymgynghoriad<sup>1</sup> a'i dosbarthu i bob eco-ysgol.

Gwnaethom asesu'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad i lywio'r gwaith o ddatblygu ein strategaeth derfynol sydd i'w chyhoeddi yn gynnar yn 2021. Canfu'r ymgynghoriad y dylai pobl ifanc gymryd rhan drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau, yn enwedig drwy eu hysgolion. Dyma fydd y nodau o dan y prif gam gweithredu **'byddwn yn darparu'r arfau i alluogi gweithredu cymunedol'** yn anelu at ei wneud. Byddwn yn ymgysylltu â phobl ifanc, drwy eco-ysgolion, fel y gallant fynd ati i ddysgu a bod yn rhan o gamau sy'n sicrhau effeithlonrwydd adnoddau drwy'r sector addysg a thu hwnt. Mae dros 90% o'n hysgolion yn eco-ysgolion dynodedig ac mae rhai wedi dangos sgiliau entrepreneuriaidd wrth gysylltu â

---

<sup>1</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-03/strategaeth-economi-gylchol-fersiwn-hawdd-ei-ddeall.pdf>

busnesau lleol a thyfu eu bwyd eu hunain. Rydym am feithrin angerdd a brwdfrydedd pobl ifanc drwy ein rhaglen eco-ysgolion a mentrau eraill i sicrhau newid.

Ar ôl ymgysylltu yn ystod yr ymgynghoriad, rydym wedi parhau i drafod y gwaith o ddatblygu'r strategaeth â phobl ifanc ac wedi cyfarfod â Senedd Ieuenctid Cymru ac Youth Cymru yn dilyn cyhoeddi crynodeb o'r ymgynghoriad.

## **2. Eglurwch sut mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar hawliau plant.**

Mae swyddogion wedi ystyried sut mae'r polisi arfaethedig hwn yn effeithio ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plentyn a daethpwyd i'r casgliad na ragwelir unrhyw effaith negyddol ar Hawliau'r Plentyn.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ystyried canlyniadau bwriadol ac anfwriadol y cynigion ar hawliau'r plentyn. Yr Erthyglau a allai fod yn berthnasol yw Erthygl 6, Erthygl 12, Erthygl 13, Erthygl 17, Erthygl 24, Erthygl 27 ac Erthygl 32. Aseswyd nad yw gweddill yr Erthyglau yn berthnasol.

**Erthygl 6** – Mae gan bob plentyn yr hawl i fywyd. Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach.

O ran **Erthygl 6**, mae'r polisi hwn yn sicrhau bod datblygiad plant yn cynnwys gwella eu dealltwriaeth ac effeithlonrwydd adnoddau. Byddwn yn ceisio darparu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau mewn eco-ddylunio a fydd yn darparu sgiliau ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol ac yn dilyn egwyddorion a amlinellir yn ein Hadferiad Gwyrdd.

**Erthygl 12** – Mae gan blant yr hawl i ddweud beth yn eu barn nhw ddylai ddigwydd, pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac i'w barn gael ei hystyried.

O ran **Erthygl 12**, darparodd Llywodraeth Cymru gyfleoedd i blant fynegi barn ar sut y byddai datblygu'r *strategaeth hon* yn effeithio arnynt drwy ddarparu fersiynau Hawdd eu Darllen o'r ymgynghoriad llawn a chynnal digwyddiadau wedi'u hanelu'n benodol at blant.

**Erthygl 13** – Mae gan blant yr hawl i gael a rhannu gwybodaeth ar yr amod nad yw'r wybodaeth yn niweidiol iddynt hwy nac i eraill.

**Erthygl 17** – Mae gan blant yr hawl i gael gwybodaeth ddibynadwy gan y cyfryngau torfol.

Dylai teledu a radio a phapurau newydd ddarparu gwybodaeth y gall plant ei deall, ac ni ddylent hyrwyddo deunyddiau a allai niweidio plant.

O ran **Erthygl 13 a 17**, darparwyd fersiynau Hawdd eu Darllen o'r ymgynghoriad i blant a byddwn yn llunio fersiwn o'r strategaeth derfynol ar gyfer pobl ifanc. Mae plant eisoes yn cael gwybod am egwyddorion ehangach rheoli gwastraff yn gynaliadwy (h.y. lleihau, aildefnyddio, ailgylchu) o fewn y cwricwlwm cenedlaethol a thrwy'r gwaith mewn eco-ysgolion. Nid ystyrir ei bod yn angenrheidiol nac yn briodol rhoi gwybod i blant am y ddeddfwriaeth sydd ar waith i helpu i gyflawni'r canlyniadau hynny.

**Erthygl 24** – Mae gan blant yr hawl i ofal iechyd o ansawdd da a dŵr glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân fel y gallant gadw'n iach. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

O ran **Erthygl 24**, manteision cyffredinol y cynnig polisi fydd gwella'r amgylchedd cyffredinol yng Nghymru, a fydd yn gweithredu ymhellach **Erthygl 24** sy'n ymwneud ag amgylchedd glân fel y bydd plant a phobl ifanc yn aros yn iach. Er enghraifft:

- Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi lansio ymgyrch 'Bydd Wych, Ailgylcha'<sup>2</sup> gyda'r nod o helpu pawb i ddod yn fwy ymwybodol o'r ystod eang o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu yng Nghymru – o blisg wyau i boteli siampw. Yr uchelgais yw nid yn unig cynyddu ailgylchu er ei fwyn ei hun, ond sicrhau y gallwn ddefnyddio'r deunydd gwerthfawr a gesglir. Mae ein gwastraff bwyd yn cael ei droi'n ynni adnewyddadwy sy'n rhoi pŵer i gartrefi a busnesau a gellir troi ein hailgylchu yn gynhyrchion newydd.
- Mae adroddiad gan Sefydliad Iechyd y Byd<sup>3</sup> yn dangos bod y newid i economi gylchol yn gyfle mawr i arwain at fanteision iechyd sylweddol, megis manteision uniongyrchol i systemau gofal iechyd a manteision anuniongyrchol o leihau effeithiau negyddol ar yr amgylchedd.

**Erthygl 27** – Mae gan blant yr hawl i safon byw sy'n ddigon da i ddiwallu anghenion corfforol a meddyliol. Dylai'r Llywodraeth helpu teuluoedd na allant fforddio darparu hyn.

O ran **Erthygl 27**, bydd manteision cyffredinol y cynnig polisi yn galluogi safon byw uwch i blant yng Nghymru.

- Drwy ganolbwyntio ar atal gwastraff bwyd a hyrwyddo aiddosbarthu bwyd bwytadwy sydd dros ben drwy sefydliadau fel FareShare Cymru a Neighbourly, byddwn yn sicrhau bod bwyd maethlon ar gael i blant o gefndiroedd mwy difreintiedig.
- Mae Hoffi Bwyd Casáu Gwastraff<sup>4</sup> yn rhoi cyngor a ryseitiai i deuluoedd reoli eu siopa bwyd yn well ac atal gwastraff bwyd sy'n arbed arian i deuluoedd. Roedd Hoffi Bwyd Casáu Gwastraff yn ymwneud â datblygu adnoddau ar gyfer Sgiliau Maeth am Oes<sup>5</sup>, gan helpu teuluoedd i wneud y gorau o'r bwyd y gallant ei brynu.
- Bydd buddsoddi mewn adfywio trefi a datblygu sgiliau yn cefnogi economïau lleol ac yn creu cyfleoedd gwaith yn nes at adref.

**Ehangach na Chymru** - Rydym wedi ystyried canlyniadau bwriadol ac anfwriadol, ar lefel fyd-eang, y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn Mwy nag Ailgylchu. Yn ogystal â'r Erthyglau uchod, rydym wedi ystyried **Erthygl 32**.

**Erthygl 32** – Dylai'r Llywodraeth amddiffyn plant rhag gwaith sy'n beryglus neu a allai niweidio iechyd neu addysg.

---

<sup>2</sup> <https://walesrecycles.org.uk/cy/bydd-wych-ailgylcha>

<sup>3</sup> [https://www.euro.who.int/\\_\\_data/assets/pdf\\_file/0004/374917/Circular-Economy\\_EN\\_WHO\\_web\\_august-2018.pdf?ua=1](https://www.euro.who.int/__data/assets/pdf_file/0004/374917/Circular-Economy_EN_WHO_web_august-2018.pdf?ua=1)

<sup>4</sup> <https://wales.lovefoodhatewaste.com/why-save-food>

<sup>5</sup> <https://www.publichealthnetwork.cymru/cy/cyfeiriadur-arfer-da/nutrition-skills-for-life/>

Mae **erthygl 32** yn ymwneud â phlant dramor ac nid plant yng Nghymru. O ran **Erthygl 32**, manteision cyffredinol y cynnig polisi fydd sicrhau bod Cymru'n hunangynhaliol o ran rheoli ei gwastraff, gan leihau'n sylweddol y gwastraff a gaiff ei allforio dramor. Rydym wedi ymrwymo i gymryd cyfrifoldeb llawn am ein problemau gwastraff – nid ei allforio i fod yn broblem mewn mannau eraill. Bydd hyn yn atal Cymru rhag cyfrannu at blant yn gweithio mewn cyfleusterau rheoli gwastraff anniogel a llai rheoleiddiedig mewn gwledydd eraill. Tynnir sylw penodol at leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu Deunyddiau Crai Critigol yn y *strategaeth*. Bydd hyn yn lleihau niwed posibl i blant oherwydd effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol uniongyrchol ac anuniongyrchol eu cloddio a'u prosesu.